**GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (CAU LLWYBR TROED DROS DRO) (Llwybr 9 Llansanffraid-Ar-Ogwr) 2025**

**RHODDIR RHYBUDD DRWY HYN** fod y Cyngor fel yr Awdurdod Priffyrdd dros Lansanffraid-ar-Ogwr gan arfer ei bwerau dan Adran 14(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd) yn bwriadu o fewn llai na 7 diwrnod o ddyddiad yr Hysbysiad hwn gwneud Gorchymyn fydd yn cau'r llwybr troed a ddisgrifir yn yr atodlen isod dros dro. Mae'r Gorchymyn yn angenrheidiol o ganlyniad i gynnal archwiliad diweddar ar y llwybr troed pan nodwyd bod difrod helaeth i nifer o'r grisiau ar y rhan honno o Lwybr Troed 9 Llansanffraid-ar-Ogwr a ddisgrifir uchod a'i fod yn anniogel i'r cyhoedd ei ddefnyddio. Mae angen ei Gau Dros dro i amddiffyn y cyhoedd ac i'w gwneud yn bosibl cyflawni atgyweiriadau.

**Atodlen**

Cau Dros Dro yr adran honno o Lwybr 9 Llansanffraid-ar-Ogwr o'r pwynt lle mae'n ymuno â Clos Tŷ'n y Coed, i gyfeiriad y gogledd yn gyffredinol, am oddeutu 95 metr at y bont droed dros Nant Bryncethin.

Daw y Gorchymyn i rym ar 04/06/2025 a bydd yn parhau mewn grym am gyfnod o chwe mis ar y mwyaf neu nes y bydd y gwaith wedi cael ei gwblhau p'un bynnag fydd y cyntaf.

Ni fydd y cyfyngiad yn weithredol, fodd bynnag, ond ar y cyfryw amser ac i'r cyfryw raddau ag y dangosir o bryd i'w gilydd gan arwyddion traffig a ragnodir gan Reoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016.

Nid oes llwybr amgen

Dyddiedig: 22/05/2025

K Watson, Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddiol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB

K Watson, Chief Officer - Legal, HR & Regulatory Services, Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB